**Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)**

**29 Ebrill 2020**

**Yn bresennol**

**John Hamer**, **Eluned Jones, Phil Coates** a **Rebecca Rees** (Llywodraeth Cymru), **Adrian Judd** a **Rachel Mulholland** (Cefas), **Mark Russell** (Cymdeithas y Cynhyrchwyr Mwynau), **Lucie Skates**, **Karen Perrow** a **Helen Bloomfield** (CNC), **David Jones** (Blue Gem Wind/Simply Blue), **Mike Butterfield** a **Richard Hill** (Y Gymdeithas Hwylio Forol), **Abby Haines** a **Mel Nicholls** (Y Sefydliad Rheoli Morol), **Rosie Kelly** (Ystad y Goron), **Katie Havard-Smith** (Partneriaeth Aber Afon Hafren), **Jim Evans** (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), **Claire Stephenson** (RSPB), **John Wrottesley** (Cymdeithas Ceblau Tanforol Ewrop, **Manon Kynaston** (Ynni Môr Cymru), **Eunice Pinn** (Seafish), **Stephen Jay** (Prifysgol Lerpwl)

1. Rhoddwyd diweddariad i'r grŵp ar nifer o ddogfennau Cynllunio Morol sydd wedi cael eu llunio neu sydd wrthi'n cael eu llunio. Mae nifer o'r dogfennau hyn wedi cael eu hatal dros dro oherwydd i staff gael eu symud i feysydd gwaith uchaf eu proffil fel rhan o'r ymateb i COVID 19. Gan nad yw'n bosibl cwrdd wyneb yn wyneb, mae'r tîm yn datblygu gweminarau wedi'u recordio i egluro'r broses cynllunio morol a'r cynllun morol.

2. Mae hefyd nifer o gynhyrchion i ategu'r gwaith o weithredu'r cynllun. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu adroddiad (yn debyg i'r un a luniwyd gan y Sefydliad Rheoli Morol) a oedd yn edrych ar y dyletswyddau Adran 58 o dan y cynllun a phwy oedd yn gwneud y penderfyniadau hynny. Rydym bellach wedi derbyn yr adroddiad, ac mae'n aros i fynd drwy'r broses sicrhau ansawdd cyn iddo gael ei ryddhau. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi cael ei atal o ganlyniad i COVID 19. Mae'r Canllawiau ar Gyflawni yn mynd drwy'r camau cymeradwyo terfynol cyn y gellir eu rhyddhau. Mae adroddiad wedi cael ei gomisiynu i edrych ar ddangosyddion posibl ar gyfer monitro effeithiolrwydd y cynllun. Ar y pryd roedd yr adroddiad yn cael ei ystyried, gyda'r nod o gynnal cyfarfod o is-grŵp dangosyddion y Grŵp Penderfyniadau Cynllunio Morol yn fuan i drafod y camau nesaf.

3. Cyflwynwyd papur trosolwg ar y Dull Gofodol ar gyfer cynllunio morol. Cafodd y gwaith a wnaed i ddatblygu achosion dros fwrw ymlaen â datblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol i actifadu polisïau diogelu'r CMCC ar gyfer sectorau penodol ei nodi. Oherwydd yr amgylchiadau presennol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig arafu'r gwaith hwn a chanolbwyntio unwaith eto ar ddatblygu Canllawiau Gofodol i Sectorau Penodol i gefnogi'r sector, i ategu cynllunio amgylcheddol a chynllunio prosiectau, ac i helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi cydsyniad. Cafodd ffocws arfaethedig y Canllawiau Gofodol i Sectorau Penodol, a ffurf y canllawiau hynny, eu hamlinellu, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y dull hwn yn cael ei dargedu at y sectorau lle y gallai ychwanegu gwerth.

4. Wedyn bu trafodaeth ynghylch Canllawiau Gofodol i Sectorau Penodol, ac roedd y grŵp o blaid y cynnig ac yn awyddus i roi mewnbwn wrth i'r broses ddatblygu. Byddai Canllawiau Gofodol i Sectorau Penodol yn cael eu paratoi mewn cydweithrediad â'r diwydiannau, ac ni fyddent yn cael eu datblygu pe na bai cefnogaeth. Nid oedd

Llywodraeth Cymru am nodi meysydd i'w datblygu, yn hytrach mynd i'r afael â'r heriau ynghylch argaeledd tystiolaeth.

5. Rhoddwyd diweddariad i'r grŵp ar Ddatganiad Ardal Morol CNC a lansiwyd ar ddiwedd mis Mawrth 2020.

6. Awgrymwyd eitemau i'w rhoi yn yr agenda yn y dyfodol, gan gynnwys y Datganiad Ardal Forol, cydweithio trawsffiniol ac (ar gyfer cyfarfod rywbryd yn y dyfodol) monitro ac adrodd. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddiwedd mis Mai.

Cwestiynau at: Rebecca.Rees2@gov.wales